A OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 2716 (Cy. 272)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999, (Gilwern i Fryn-mawr) (Diwygio) 2014

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Diwygio 2012, mewn cysylltiad â'r darn rhwng Gilwern a Bryn-mawr (a elwir Adran 2); mae'n darparu hefyd ar gyfer rhai newidiadau i'r trefniadau ar gyfer cyffyrdd gan gynnwys diwygio a darparu slipffyrdd, hepgor slipffordd, darparu ffordd gysylltu a diddymu statws cefnffordd darn o'r gefnffordd bresennol.

Roedd Gorchymyn Diwygio 2012 yn diwygio Gorchymyn 1999 mewn cysylltiad â'r darn o'r gefnffordd newydd (A465) rhwng Bryn-mawr a Thredegar (a elwir Adran 3). Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 1999 ymhellach mewn cysylltiad ag Adran 2.

Mae erthygl 2 yn diwygio'r disgrifiad yng Ngorchymyn 1999 o'r planiau a adneuwyd mewn perthynas â llinell Adran 2 o'r gefnffordd newydd (A465), drwy gynnwys Plan Allweddol 1B, Plan Safle 2A, Plan Safle 3A a Phlan Safle 4B yn eu trefn yn y

plan a adneuwyd fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn hwn, yn lle Plan Allweddol 1A, Plan Safle 2, Plan Safle 3 a Phlan Safle 4A.

Mae erthygl 3 yn diwygio Atodlen 2 i Orchymyn 1999 mewn perthynas ag Adran 2 drwy fewnosod disgrifiadau diwygiedig, a hepgor un disgrifiad, o'r slipffyrdd sydd i'w darparu.

Mae erthygl 4 yn diwygio Atodlen 2 i Orchymyn 1999 mewn perthynas ag Adran 2 drwy fewnosod disgrifiad newydd o slipffordd sydd i'w darparu.

Mae erthygl 5 yn diwygio Atodlen 3 i Orchymyn 1999 mewn perthynas ag Adran 2 drwy fewnosod disgrifiad newydd o ffordd gysylltu sydd i'w darparu.

Mae erthygl 6 yn diwygio Atodlen 4 i Orchymyn 1999 drwy fewnosod disgrifiad newydd o ddarn o gefnffordd (A465) a fydd yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddiddosbarth pan gwblheir Adran 2.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 2716 (Cy. 272)

# PRIFFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999, (Gilwern i Fryn-mawr) (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *06 Hydref 2014* |
| *Yn dod i rym* | *16 Hydref 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 10 o Ddeddf Phriffyrdd 1980(**1**), a phob pŵr galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, dehongli a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999, (Gilwern i Fryn-mawr) (Diwygio) 2014 a daw i rym ar 16 Hydref 2014.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr y "Prif Orchymyn" ("*Principal Order*") yw Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i

(**1**) 1980 p.66.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraa 30 o Atodlen 11 I Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi eu trosglwyddo I Weinidogion Cymru of ran Cymru.

Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd –Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999(**1**) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Bryn-mawr i Dredegar) (Diwygio) 2012(**2**).

**Diwygio'r planiau a adneuwyd gan gynnwys y darluniad o lwybr y brif gefnffordd newydd**

**2.** Yn erthygl 6 o'r Prif Orchymyn, yn lle paragraff (2)(i) rhodder—

"(2)(i) ystyr "y plan a adneuwyd" yw'r plan a rifwyd

HA10/2 WO131 ac a farciwyd "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999" fel y'i newidiwyd o ran Plan Allweddol 1, Plan Safle 4 a Phlan Safle 5 i Blan Allweddol 1A, Plan Safle 4A a Phlan Safle 5A yn y plan a rifwyd HA10/2 WG7 ac a farciwyd "Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Bryn-mawr i Dredegar) (Diwygio) 2012" ac

fel y'i newidiwyd ymhellach o ran Plan Allweddol 1A, Plan Safle 2, Plan Safle 3 a Phlan Safle 4A i Blan Allweddol 1B, Plan Safle 2A, Plan Safle 3A a Phlan Safle 4B yn y plan a adneuwyd a rifwyd HA10/2

WG08 ac a farciwyd "Gorchymyn Gochymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Chefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999, (Gilwern i Fryn-mawr) (Diwygio) 2014"

---

(**1**) O.S. 1999/2720 (Cy.9).
(**2**) O.S. 2012/2092 (Cy.242).

a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru ac a adneuwyd (cyf qA1042721) yn Uned Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**Diwygio'r slipffyrdd a hepgor slipffordd**

**3.** Yn Atodlen 2 i'r Prif Orchymyn, yn lle paragraffau 4 i 6 rhodder—

> "**4.** Llwybr, sy'n rhyw 60 metr o hyd, i gysylltu cerbytffordd y brif gefnffordd newydd (A465) tua'r gorllewin gyda Ffordd yr Orsaf (i'w ailalinio fel y darperir yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl cysylltiedig), yn cychwyn o bwynt 120 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd rhwng y gefnffordd bresennol (A465) a Ffordd yr Orsaf i'r gorllewin o Saleyard i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd ar bwynt 145 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd rhwng Llwybr Beicio Cenedlaethol 46 a Ffordd Brunant (rhoddir i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn y rhif cyfeirnod 9 ar Blan Safle rhif 2A (fel y'i diwygiwyd) o'r plan a adneuwyd).
>
> **5.** Hepgorir y llwybr ar gyfer y gefnffordd newydd a ddangosir â rhif cyfeirnod 10 ar Blan Safle rhif 2 o'r plan a adneuwyd gyda'r Prif Orchymyn.
>
> **6.** Cyffordd aml-lefel sydd i gynnwys pedwar llwybr i gysylltu cerbytffyrdd y gefnffordd newydd (A465) tua'r dwyrain a thua'r gorllewin gyda'r gylchfan bresennol ym Mryn-mawr, a ffyrdd cysylltu newydd i gynnwys cylchfan newydd ar Hen Ffordd y Fenni a ddisgrifir yn Atodlen 3, i'r de-ddwyrain o Ysgol Sefydledig Bryn-mawr (rhoddir i'r cefnffyrdd newydd ar y llwybrau hyn, yn eu trefn, y rhifau cyfeirnod 11, 12, 13 a 14 ar Blan Safle rhif 3A (fel y'i diwygiwyd) a Phlan Safle 4B (fel y'i diwygiwyd) y plan a adneuwyd a disgrifir hwy'n unigol fel a ganlyn—
>
> > Llwybr sy'n rhyw 0.30 cilometr o hyd i gysylltu cerbytffordd y brif gefnffordd newydd (A465) tua'r gorllewin â Chylchfan Bryn-mawr, yn cychwyn o bwynt 210 metr i'r de o gornel dde-ddwyreiniol llain chwaraeon Ysgol Sefydledig Bryn-mawr lle mae'n cysylltu â'r gefnffordd bresennol (A465), i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol, hyd at ei gyffordd â chwadrant gogledd-ddwyreiniol Cylchfan Bryn-mawr (rhoddir i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn y rhif cyfeirnod 11 ar Blan Safle rhif 3A (fel y'i diwygiwyd) a Phlan Safle rhif 4B (fel y'i diwygiwyd) o'r plan a adneuwyd).

Llwybr sy’n rhyw 0.26 cilometr o hyd i gysylltu cerbytffordd y brif gefnffordd newydd (A465) tua’r gorllewin â Chylchfan Bryn-mawr, yn cychwyn o bwynt 40 metr i’r gogledd-orllewin o’r bont sy’n cludo Intermediate Road dros y gefnffordd bresennol (A465), i gyfeiriad y de-ddwyrain, hyd at ei gyffordd â chwadrant gogledd-orllewinol Cylchfan Bryn-mawr (rhoddir i’r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn y rhif cyfeirnod 12 ar Blan Safle rhif 3A (fel y’i diwygiwyd) a Phlan Safle rhif 4B (fel y’i diwygiwyd) o’r plan a adneuwyd).

Llwybr sy’n rhyw 0.31 cilometr o hyd i gysylltu cerbytffordd y brif gefnffordd newydd (A465) tua’r dwyrain â ffordd gysylltu newydd (a ddisgrifir yn Atodlen 3 ac y rhoddir iddi’r cyfeirnod G i H), yn cychwyn o bwynt 190 metr i’r de o gornel dde-ddwyreiniol llain chwaraeon Ysgol Sefydledig Bryn-mawr a 10 metr i’r de o Hen Ffordd y Fenni i gyfeiriad y gorllewin, wedyn y gogledd ac wedyn y dwyrain, hyd at bwynt 60 metr i’r de-ddwyrain o gornel dde-ddwyreiniol llain chwaraeon Ysgol Sefydledig Bryn-mawr a 10 metr i’r de o’r ffordd sy’n arwain i Hafod (rhoddir i’r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn y rhif cyfeirnod 13 ar Blan Safle rhif 3A (fel y’i diwygiwyd) a Phlan Safle rhif 4B (fel y’i diwygiwyd) o’r plan a adneuwyd).

Llwybr sy’n rhyw 0.44 cilometr o hyd i gysylltu cerbytffordd y brif gefnffordd newydd (A465) tua’r dwyrain â chylchfan newydd (sef rhan o’r ffordd gysylltu newydd a ddisgrifir yn Atodlen 3 ac y rhoddir iddi’r cyfeirnod G i H), yn cychwyn o bwynt 30 metr i’r dwyrain o’r bont sy’n cludo Intermediate Road dros y gefnffordd bresennol (A465), i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at bwynt 180 metr i’r de-ddwyrain o gornel dde-ddwyreiniol llain chwaraeon Ysgol Sefydledig Bryn-mawr a 10 metr i’r gogledd o Hen Ffordd y Fenni (rhoddir i’r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn y rhif cyfeirnod 14 ar Blan Safle rhif 3A (fel y’i diwygiwyd) a Phlan Safle rhif 4B (fel y’i diwygiwyd) o’r plan a adneuwyd.”

**Ychwanegu slipffordd**

**4.** Yn Atodlen 2 o’r Prif Orchymyn, ar ôl paragraff 21, mewnosoder—

“**22.** Llwybr sy’n rhyw 0.44 cilometr o hyd i gysylltu cerbytffordd y brif gefnffordd newydd

(A465) tua'r dwyrain â Main Road, Gilwern, yn cychwyn o bwynt at y brif gefnffordd newydd (A465) 170 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd rhwng Lôn yr Ysgol a Main Road, Gilwern i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at bwynt 130 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd honno (rhoddir i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn y rhif cyfeirnod 49 ar Blan Safle rhif 2A (fel y'i diwygiwyd) o'r plan a adneuwyd)."

**Llwybr cefnffordd gysylltu newydd ychwanegol**

**5.** Ar ddiwedd Atodlen 3 i'r Prif Orchymyn, mewnosoder y paragraff canlynol—

> "Mae Llwybr Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (A465), sy'n cynnwys ffordd gyswllt a chylchfan aml-lefel, i gysylltu â Chylchfan Bryn-mawr; dwy slipffordd newydd; Hen Ffordd y Fenni a'r ffordd sy'n arwain i Hafod a'r ffordd sy'n arwain i Ysgol Sefydledig Bryn-mawr (y cyfan i'w hailalinio yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl cysylltiedig); yn llwybr sy'n rhyw 680 metr o hyd (a farciwyd G i H ar blaniau safle 3A a 4B o'r plan a adneuwyd) fel a ganlyn—
>
>> yn cychwyn o bwynt ar ochr dde-ddwyreiniol y gylchfan bresennol ym Mryn-mawr (a farciwyd G ar blaniau safle 3A a 4B o'r plan a adneuwyd) i gyfeiriad y de-ddwyrain am 200 metr ac yna i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am 220 metr dros y brif gefnffordd newydd (A465), i gwrdd ag ochr ddeheuol cylchfan gysylltu newydd (sydd i'w hadeiladu gyda'i chanolbwynt 210 metr i'r de-ddwyrain o gornel dde-ddwyreiniol llain chwaraeon Ysgol Sefydledig Bryn-mawr a chyda chylchedd o 140 metr), ac i gysylltu â slipffordd newydd (a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac y rhoddir y rhif cyfeirnod 14 iddi ar blaniau safle 3A a 4B o'r plan a adneuwyd), ac wedyn ymlaen o ochr ogledd-orllewinol y gylchfan newydd i gyfeiriad y gogledd-orllewin am 120 metr i gysylltu â slipffordd newydd (a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac y rhoddir y rhif cyfeirnod 13 iddi ar blaniau safle 3A a 4B o'r plan a adneuwyd) mewn pwynt 60 metr i'r de o gornel dde-ddwyreiniol llain chwaraeon Ysgol Sefydledig Bryn-mawr a 10 metr i'r de o'r ffordd sy'n arwain i Hafod (a farciwyd H ar blaniau safle 3A a 4B o'r plan a adneuwyd)."

**Ychwanegu darn o gefnffordd a fydd yn peidio â bod yn gefnffordd**

**6.** Ychwaneger y disgrifiad canlynol o ddarn o gefnffordd a fydd yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddiddosbarth, ar ôl paragraff (ii) ar ddiwedd Atodlen 4 o'r Prif Orchymyn—

> "(iii) y darn hwnnw o'r gefnffordd bresennol (A465), yn cychwyn o bwynt 20 metr i'r dwyrain o'r gyffordd rhwng y gyffordd bresennol (A465) a Ffordd yr Orsaf yn Saleyard (a farciwyd FF ar Blan Safle 2A (fel y'i diwygiwyd) o'r plan a adneuwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad y gorllewin am 170 metr at bwynt 50 metr i'r de-orllewin o gornel ddeheuol yr eiddo a elwir Liberton, i'r gorllewin o Saleyard (a farciwyd GG ar Blan Safle 2A (fel y'i diwygiwyd)."

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiedig: 06 Hydref 2014

*R Morgan*
RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**DEDDF PRIFFYRDD 1980**

**GORCHYMYN GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD — Y FENNI (A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A CHEFNFFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON — MAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (A4060), CEFNFFORDD CAERDYDD — GLANCONWY (A470) (FFYRDD CYSYLLTU) 1999, (GILWERN I FRYN-MAWR) (DIWYGIO) 2014**
**A**
**GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI (YR A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A CHEFNFFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON I FAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (YR A4060) A CHEFNFFORDD CAERDYDD I LANCONWY (YR A470) (FFYRDD CYSYLLTU) (GILWERN I FRYN-MAWR) (FFYRDD YMYL) 2014**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud y Gorchmynion canlynol:-

1. Gorchymyn o dan adran 10 o Ddeddf Priffyrdd 1980 i ddiwygio Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd — Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon — Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd — Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (O.S. 1999/2720) ("Gorchymyn 1999") mewn cysylltiad â'r darn rhwng Gilwern a Bryn-mawr ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac yn Sir Fynwy, a adwaenir fel Adran 2, drwy

a. diwygio llinell Adran 2 fel y dangosir mewn newidiadau i'r planiau a adneuwyd, gan gynnwys newidiadau i'r trefniadau ar gyfer cyffyrdd;

b. ychwanegu at, diwygio a hepgor o'r disgrifiadau o'r ffyrdd ymuno ac ymadael sydd i'w darparu, mewn perthynas ag Atodlen 2;

c. ychwanegu disgrifiad o ffordd gysylltu sydd i'w darparu, mewn perthynas ag Atodlen 3; a

d. ychwanegu disgrifiad o’r darn o gefnffordd a fyddai’n peidio â bod yn gefnffordd yn unol â Gorchymyn 1999; a

2. Gorchymyn o dan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn awdurdodi Gweinidogion Cymru:-

(a) i wneud gwaith i wella priffyrdd;
(b) i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
(c) i adeiladu priffyrdd newydd;
(d) i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd;
(e) i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd;
(f) i gau priffyrdd dros dro; ac
(g) i ddarparu priffordd dros dro

rhwng Gilwern a Bryn-mawr ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac yn Sir Fynwy; a

darparu ar gyfer trosglwyddo’r priffyrdd newydd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Sir Fynwy o’r dyddiad yr hysbysir y Cynghorau gan Lywodraeth Cymru fod y priffyrdd wedi eu cwblhau a’u bod ar agor ar gyfer traffig trwodd.

Gellir Archwilio copïau o’r Gorchmynion, a Gorchymyn 1999, a’r planiau cysylltiedig yn ddi-dâl yn ystod unrhyw oriau rhesymol o 16 Hydref 2014 tan 27 Tachwedd 2014, neu o fewn 6 wythnos i ddyddiad cyhoeddi’r hysbysiad hwn, pa bynnag gyfnod a ddaw i ben ddiwethaf, yn y swyddfeydd canlynol:

Y Gangen Gorchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ;

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu LD3 7HP

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Swyddfeydd y Cyngor, y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy NP23 6XB;

Llyfrgell Brynmawr, Sgwâr y Farchnad, Brynmawr NP23 4AJ;

Cyngor Sir Fynwy, Siop Un Stop, Neuadd y Farchnad, Cross Street, Y Fenni NP7 5HD.

Bydd y dogfennau hefyd ar gael yng Nghyngor Cymuned Llanelli, Canolfan Gymunedol Gilwern, Common Road, Gilwern NP7 0DS o ddydd Llun i ddydd Mercher rhwng 9.30 a 12.30.

Mae'r Gorchymyn, sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd — Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon — Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd — Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999, (Gilwern i Fryn-mawr) (Diwygio) 2014', OS 2014 Rhif 2716 (Cy. 272), wedi ei gyhoeddi gan TSO (Y Llyfrfa) a gellir prynu copïau ohono ar lein oddi wrth www.tsoshop.co.uk neu TSO @Blackwell; www.tso.co.uk/contact/bookshops/agents/cardiff/ ac Asiantau Achrededig eraill.

Gellir cael copïau o'r Gorchymyn, sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd **Castell-nedd — Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon — Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd — Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Gilwern I Fryn-mawr) (Ffyrdd Ymyl)** 2014' gan Lywodraeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Os bydd unrhyw un sydd wedi'i dramgwyddo gan y Gorchymyn Diwygio neu'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl am gwestiynu eu dilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth ynddynt ar y seiliau canlynol, sef:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, neu
b. na chydymffurfiwyd â rhyw ofyniad yn y Ddeddf neu'r rheoliadau y gwnaethpwyd y gorchmynion hyn yn unol â hwynt,

gall yr unigolyn hwnnw wneud cais i'r diben hwnnw i'r Uchel Lys ymhen 6 wythnos ar ôl iddynt ddod yn weithredol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Llinell a'r Hysbysiad yn http://cymru.gov.uk/?lang=cy (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchmynion Llinell y Ddeddf Priffyrdd', '2014').

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Hysbysiad yn http://cymru.gov.uk/?lang=cy (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru',

‘Ymylon Ffyrdd a Gorchmynion Prynu Gorfodol yn unol â’r Ddeddf Priffyrdd’, ‘2014’).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru